# COFNOD PENDERFYNIADAU CYD-GYFARFOD PENDERFYNIADAU'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU A'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS DAI

## 23AIN GORFFENNAF 2015

**Ystafell Bwyllgorau'r Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin**

**2.00pm – 2.30pm**

| YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL | Y PORTFFOLIO |
|---|---|
| Councillor L.D. Evans | Tai |
| Councillor D. M. Jenkins | Adnoddau |

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| Mr. L. James | Rheolwr y Gwasanaethau Tai |
| Mr. J. Gravelle | Rheolwr y Gwasanaethau Refeniw |
| Mr. K. Thomas | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd. |

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

**Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.**

Ar ôl ystyried yr adroddiadau am yr eitemau isod a chan roi sylw i farn yr Aelodau Lleol a'r rhai oedd a wnelont â'r materion, lle'r oedd hynny'n berthnasol, gwnaeth yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol y penderfyniadau canlynol:-

| Rhif yr Eitem | Y Pwnc / Penderfyniad |
|---|---|
| 2 | **COFNOD PENDERFYNIADAU – 29ain MEHEFIN 2015**<br><br>**PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 29ain Mehefin, 2015, gan ei fod yn gywir.** |
| 3 | **ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**<br><br>**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei** |

| | |
|---|---|
| | **chyhoeddi, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 14 ac 16 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.** |
| **4.** | **<u>TALIADAU PRYDLES, HEOL WALLASEY, RHYDAMAN</u>**<br><br>**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 3 uchod, na fyddid yn cyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu fusnes rhywun penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf), a gwybodaeth y gellid honni braint gyfreithiol broffesiynol mewn perthynas â hi mewn achosion llys cyfreithiol (Paragraff 16 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**<br><br>**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gyfreithiol freintiedig a manylion prydleswyr yn Heol Wallasey. Felly byddai datgelu gwybodaeth mewn unrhyw fodd yn anfanteisiol i hawliau a rhyddid gwrthrychau'r data ac i unrhyw gamau cyfreithiol y gallai'r Awdurdod eu cymryd neu y gallai fod yn rhaid iddo ei amddiffyn ei hun rhagddynt. Felly yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**<br><br>Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau a'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai yn ystyried adroddiad oedd yn manylu ar 4 dewis o ran y taliadau i'w codi ar brydleswyr eiddo yn Heol Wallasey mewn perthynas â'r gwaith a wnaed i'r eiddo gan yr Awdurdod.<br><br>**PENDERFYNWYD bod y Prydleswyr yn Heol Wallasey i dalu'r swm gwreiddiol fel y'i pennwyd yn yr Hysbysiad Amcangyfrifon.** |

________________________________

YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS DAI

________________________________

Y DYDDIAD